

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 11 Mawrth 17, 2022 50c.

DATHLU GŴYL EIN NAWDDSANT A CHEFNOGI WCRÁIN

Fe wnaeth cannoedd lawer o bobl â baneri orymdeithio trwy dref Caerfyrddin ar fore Sadwrn 5 Mawrth i ddathlu Gwyl Ddewi a pharhad ein cenedl ac i dangos cefnogaeth gref i bobl Wcráin.



Wrth ddathlu ein nawddsant, roedd hefyd yn gyfle i gyhoeddi ein bod ni'n sefyll mewn undod â phobl Wcráin yn enw democratiaeth, annibyniaeth a heddwch, meddai Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John, sy'n aelod yn eglwys Annibynnol Heol Awst. O ystyried sefyllfa'r ffoaduriaid,

dywedodd bod dyletswydd arnom i estyn croeso i bawb beth bynnag eu crefydd, lliw neu iaith.

Wrth annerch y dorf fawr oedd yn llanw prif sgwâr y dref, dywedodd caplan y maer, y Parchg Beti-Wyn James, bod gorchymyn Vladimir Putin i roi grymoedd amddiffyn niwclear Rwsia ar 'rybudd uchel' yn profi'r angen am ymgyrch newydd i fynnu diarfogi niwclear rhyngwladol. 'Rydym ni wedi gweld pa mor gyflym y trodd y Rhyfel Oer yn Rhyfel Poeth yn Wcráin,' meddai. 'Gweddiwn ar Dduw nid yw'n datblygu'n rhyfel niwclear. Mae gan Gymru draddodiad hir ac anrhydeddus o heddychiaeth, ac mae angen hynny nawr cymaint ag erioed.'

Fe anerchwyd y dorf hefyd gan Adam Price AS, oedd wedi dychwelid o ymweliad preifat gydag Wcráin prin ddiwrnod cyn i'r ymladd dechrau. Dywedodd mai'r neges gafodd yno i'w draddodi nôl yng Nghymru oedd 'Peidiwch ag ofni Putin, dy'n ni ddim yn ei ofni. Fe yw'r gelyn, nid pobl Rwsia.'

Daeth dathliad Gwyl Ddewi i ben gyda Band Chwyth Symffonig Caerfyrddin yn chwarae anthem Wcráin, ac yna 'Hen Wlad fy Nhadau' mewn uchafbwynt emosïynol i achlysur arbennig iawn.

Apêl Wcráin

Ar ddydd Mawrth, Dydd Gwyl Dewi, eleni daeth neges e-bost at lawer ohonom oddi wrth y gweinidog yn gofyn i ni ddarllen neges yr oedd ef wedi ei derbyn oddi wrth Gwyn a Margaret Lloyd. Yn y neges honno, oedd yn cael eu hanfon at aelodau'r Tabernacl a'r Capel Mawr, hysbyswyd ni fod lorri yn gadael Bangor am 4 brynawn fory (dydd Mercher) yn cludo nwyddau i Romania ble mae llawer o ffoaduriaid o Wcráin yn ceisio lloches rhag y sefyllfa ddifrifol yn eu gwlad.' Gwahoddwyd ni i gyfrannu nwyddau i'w rhoi ar y lorri, a chafwyd rhestr o'r hyn oedd eu hangen. Bu'n rhaid symud ar frys, ond cyfrannodd llawer.

parhad ar dudalen 2

YMDRECH PORTHMADOG A'R CYLCH I ANFON DILLAD I WCRÁIN

Roedd gweld yr ymateb mewn byr amser i'r argyfwng yn Wcráin drwy garedigrwydd pobl ardal Porthmadog yn aruthrol, fel sawl ardal arall. Dydi'r lluniau yma yn ddim ond dangosiad bychan o'r hyn a anfonwyd i Wrecsam i ddechrau, ac o ganlyniad i hynny drosodd i Wcráin. Dim ond diolch yw fy lle am yr ymateb gwyh, sy'n dangos yr ymateb i'r alwad 'yn gymaint ag y gwnaethoch i un o'r rhai lleiaf hyn, i mi y gwnaethoch' meddai Iesu.

Fel rhan o'n gofid dros y sefyllfa yn Wcráin ac o'n hymwybyddiaeth o gariad Duw rydym fel gofalaeth yn cynnal cyfarfod defosiynol bob bore dydd Llun ar Zoom. Arweiniwyd y cyntaf ar 28 Chwefror gan Iwan Llewelyn ac ar 7 Mawrth gan Pryderi Llwyd Jones, Robert Codd a John Jones. Byddwn yn parhau bob bore Llun am yr wythnosau nesaf am 10 o'r gloch ar Zoom a chroeso i unrhyw un ymuno. Cysylltwch â mi i gael y ddolen: iwanllew@aol.com

Iwan Llewelyn



Dillad ac adnoddau eraill wedi eu cadw yn Siop Eifionydd Porthmadog



Peth o'r dillad ac adnoddau eraill yn yr ysgoldy Llanuwchllyn ar eu ffordd i Wrecsam



Apêl Wcráin – parhad



Lluniau gan Margaret Lloyd

Ar ddiwedd yr ‘yfor’, cafwyd neges arall gan Margaret a Gwyn; ‘Gair o ddiolch i bob un ohonoch chi ddaru roi nwyddau angenrheidiol ar gyfer trigolion Wcráin heddiw. Mi lwyddon ni i lenwi pedwar llond car a’u trosglwyddo i fan sydd erbyn hyn ar ei ffordd i Bebbington ac yna i Lundain ac ymlaen yn ystod oriau mân y bore i’r ffin ag Wcráin. Diolch am y cydweithio hapus, yr ymateb parod ac am yr hyn a gyflawnwyd o fewn ychydig oriau. Gwyn a Margaret.’

Diolchwn ninnau i Gwyn a Margaret am ein galluogi i gynorthwyo pobl Wcráin yn y sefyllfa enbydus y maent yn cael ei hunain ynddi.

(Allan o *Llais y Tabernacl*,
Porthaethwy, rhifyn mis Mawrth 2022)

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Cyrsgiau'r Gwanwyn

**Darllen, deall a dehongli
Gair Duw heddiw**

**Astudio'r Beibl yn ein
cyd-destun ni**

**Dirnad a datblygu doniau yn
ein heglwysi**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 22 Mawrth
ALUN TUDUR, Caerdydd**

**CWRS DEHONGLI'R
YSGRYTHURAU
Yr Actau a'r Epistolau**

**7.00 nos Fercher,
23 Mawrth**

ALED JONES, Cyfarwyddwr a
Chydlwydd Hyfforddi'r Coleg

**Croeso cynnes iawn i bawb
Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni
Zoom oddi wrth
aled@colegyrannibynwyr.cymru

ADOLYGIAD

D. J. JAMES EI FYWYD A'I DDYLANWAD

*Richard Morgan,
Ymddiriedolaeth
Pantfyedwen,
2021, £18*

Mae llawer iawn ohonom wedi bod ar ein hennill drwy haelioni Syr David James.

Cafodd myfyrwr, eisteddfodwyr ac eglwysi grantiau hael drwy'r ddarpariaeth a osododd ef yn ei lle. Ond faint wyddon ni am y cymwynaswr mawr hwn? Dim llawer falle, tan nawr.

Gwnaeth Richard Morgan gymwynas fawr â ni yn ysgrifennu'r cyfrolau hyn (mae fersiynau Cymraeg a Saesneg). Fel y nodar teitl, mae dau hanner i'r llyfr. Hanes D. J. James ei hun sydd gyntaf, yna'r dylanwad sy'n para yn dilyn hynny. Mae manylion yr ymddiriedolaethau wedi eu cofnodi yn ofalus yn swyddfa Pantfyedwen. Mater o ddewis a dethol, a chrynhoi, oedd adrodd y stori honno, ac fe wnaed hynny yn fedrus a diddorol. Mae'r symiau ariannol a roed i unigolion, sefydliadau ac eglwysi dros y blynyddoedd yn syfrdanol.

Y dyn ei hun

Roedd llawer mwy o waith ymchwilio yn angenrheidiol er mwyn adrodd stori D. J. James ei hun. Bu farw yn 1967, a does neb o'r rhai oedd yn ei nabod yn dda sy'n fyw heddiw. Ychydig iawn, iawn o'r ohebiaeth rhyngddo ac eraill sydd wedi goroesi. Bu'n rhaid twrio a chwilota llawer i ddod o hyd i'r ffeithiau. Cawsom ddarlun llawn, gyda llu o fanylion, a'r cwbl wedi'i adrodd yn ddifyr.


Llaeth Llundain

Aeth ugeiniau lawer o deuluoedd o Geredigion i Lundain i chwilio am fywyd gwell drwy sefydlu busnes gwerthu llaeth. Chafodd neb well hwyl arni na theulu D. J. James. Gwelodd gyfleoedd i arallgyfeirio drwy sefydlu busnes grawn a mentro i fyd sinemâu. Byddai wrth ei fodd o wybod bod y cwmni grawn yn dal i ffynnu ar ddau gyfandir, ac yn dal i gario'r enw James.

Haelioni

Yn ardal Pontrhydfendigaid yr oedd ei

wreiddiau; bu'n hynod hael tuag ati-pafiliwn, eisteddfod, cae chwarae, a mwy. Rhoddodd yn hael droeon i Urdd Gobaith Cymru. Cyfrannodd yn sylweddol at enwadau crefyddol. Roedd consyrn mawr ganddo am gyflogau gweinidogion a'u pensiynau. Bu'n ystyried y weinidogaeth ei hun am gyfnod yn ei lencyndod. Cefnogodd ddiwylliant Cymru, yn enwedig drwy'r eisteddfodau. Er iddo fod yn alltud yr holl flynyddoedd, roedd y Bont a Chymru yn agos iawn at ei galon.



Cwpan arian yr Urdd a gyflwynwyd gan DJ. Y plant yw Pamela (10 mlwydd oed), Anthony (9 mlwydd oed) a Graham (7 mis oed)

Dim laesu dwylo

Doedd ganddo fawr o amynedd at lusgo traed a gorymgynghori. Doedd pwyllgora ddim wrth ei fodd. Gwnaeth y rhan fwyaf o'i benderfyniadau yn gyflym, ar ei ben ei hun. Disgwyliai i eraill symud yn gyflym, cynigiodd arian mawr i enwadau Cymru pe baent yn uno o fewn un flwyddyn! Ffafiai'r mawr - cwpan yr Urdd - y dymunai iddi fod yn gwpan arian fwy'r byd, a'r garreg goffa ym mynwent Ystrad Fflur, er enghraifft.

Mynegai ei feddwl heb ofni tramgwyddo. Mae llythyr a ysgrifennodd at yr esgob, John Richards yn brawf o hynny. Roedd D. J. James wedi gofyn ymlaen llaw am ddau newid bach yn angladd ei wraig, Grace, a'r esgob wedi gwrthod y cais. Yn fuan wedyn ysgrifennodd at yr esgob yn mynegi ei siom, 'your un-Godly acts last Tuesday have added to my sorrow ... may the Lord have mercy on your soul.'

Dyma gofiant teilwng i ŵr hynod a chymwynaswr hael. Mwynhewch y darllen a'r lluniau. Cewch foddhad mawr.

Dewi M. Hughes

Yr Adran Gydenwadol

Gŵyl Llanw yn ôl ar gyfer 2022

Gŵyl Gristnogol i bob oed gafodd ei sefydlu yn 2008 yw Llanw. Roedd oddeutu 60 o bobl yn yr ŵyl gyntaf, ac mae wedi tyfu bellach i fod yn ŵyl y mae oddeutu 300 yn ei mwynhau bob blwyddyn. Mae'n ŵyl symudol ac wedi ei chynnal yn Llangrannog, Ceinewydd, Dinbych-y-pysgod, Cricieth a Chydwelli.

Ffocws yr ŵyl yw dathlu'r atgyfodiad wrth i Gristnogion ddod at ei gilydd i glywed pregethau, anerchiadau a seminarau Beiblaidd, a mwynhau addoliad egnïol a chyfoes.

Beth sy'n digwydd yn Llanw 2022?

Cynhelir oedfa nos Lun, bore Mawrth a nos Fawrth yng Nghanolfan Medrus, Aberystwyth. Bydd yna ddewis o ddarlith neu sgysiau byr a phanel, a chyfle hefyd i gymdeithasu dros baneidiau lu a phrynhawn o hwyl gyda'n gilydd ar draeth Aberystwyth ar y dydd Mawrth.

Plant ac ieuentid

Bydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant ar y nos Lun, bore Mawrth a nos Fawrth, a darpariaeth i'r ieuentid ar y bore Mawrth. Mae'n ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist. Gall unigolyn rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb ei rieni os bydd capel neu warchodwr yn gyfrifol amdano/amdani.

Cynhelir prif ddigwyddiadau Llanw eleni yng Nghanolfan Medrus, Aberystwyth, ar gampws y Brifysgol. Mae seddau ar gyfer 300 o bobl yn y neuadd, ac mae yna adnoddau ar gyfer darparu te a choffi, yn ogystal â maes parcio.

Amserlen Llanw 2022

Nos Lun – 18 Ebrill

6.30 pm: Dathliad gyda neges gan Stuart Bell

Dydd Mawrth – 19 Ebrill

10 am: Oedfa deulu gyda Martyn a Meilyr Geraint

11.30 am: Cyfres o sgysiau byr yn arddull 'TED talks' gan Anna Mari, Lydia Power a Cynan Llwyd neu ddarlith hanes gan Jonathan Thomas

1.30 pm: Cyfarfod ar y traeth – picnic a gemau

6 pm: Cyfarfod Blynyddol Llanw

6.30 pm: Dathliad gyda neges gan Jonathan Thomas

Gwaith Plant 4–11 oed: Nos Lun, bore a nos Fawrth

Gwaith Ieuentid 11–15 oed: Bore Mawrth

Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw. Bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon.

Llety?

Oherwydd amgylchiadau'r pandemig, penderfynodd swyddogion Llanw i beidio â chynnal gŵyl breswyl eleni, felly nid ydym yn trefnu llety i bawb. Mae croeso i bobl ddod am y diwrnod neu drefnu llety eu hunain yn yr ardal.

Eleni rydym yn defnyddio gwasanaeth EventBrite i werthu a rheoli tocynnau. Rydym wedi ceisio cadw pris tocynnau mor rhesymol ag sy'n bosib, ond mae costau sylweddol ynghlwm â chynnal cynhadledd mewn canolfan addas.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan www.llanw.org neu ebostiwch Angharad Clwyd: yhmholiadau@llanw.org

Globaleiddio'r Cymry: John Davies (Tahiti) a Griffith John (Wuhan)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – 22 Mawrth, digwyddiad ar-lein am 5:00yh

Cododd mudiad cenhadol grymus yng Nghymru o tua diwedd y 18fed ganrif ymlaen. Roedd yn rhan o symudiad ehangach y byddai iddo ganlyniadau pellgyrhaeddol, yn grefyddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol, wrth i Gristnogaeth droi o fod yn grefydd i ogledd-orllewin y byd yn bennaf, i fod yn un fyd-eang.

Dau o genhadon Cymreig amlyca'r 19eg ganrif oedd John Davies (1772–1855) o sir Drefaldwyn a Griffith John (1831–1912) o Abertawe. Bu'r ddau'n genhadon am dros hanner canrif, y naill yn Ynysoedd Môr y De a'r llall yn China.

Mae Wil Aaron wrthi'n paratoi astudiaeth fanwl o fywyd a gwaith John Davies, ac mae John Aaron wedi cyhoeddi llyfr am Griffith John.

Yn y sgwrs hon, wedi'i chadeirio gan Carwyn Graves, bydd y ddau frawd yn tafoli cyfraniadau'r ddau genhadwr, nid lleiaf eu gwaith yn cyfieithu rhannau o'r Beibl i ieithoedd Tahiti a China.

Mae pynciau megis 'trefedigaethedd', 'polyethnigrwydd' a 'globaleiddio' yn cael sylw mawr yn ein dyddiau ni, ac mae ystyried gwaith y ddau genhadwr hyn yn cynnig cyfle heb ei ail i archwilio'r hyn sy'n digwydd pan fydd diwylliannau gwahanol iawn yn cyfarfod.

Digwyddiad trwy gyfrwng y Gymraeg – darperir cyfieithu ar y pryd.

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am y digwyddiad a sut i archebu eich lle ar y ddolen hon: <https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-rexgan>



Cofio Aled Roberts

Cafodd Aled ei eni yn 1962, pan oedd Harold Macmillan yn brif weinidog. Doedd neb yn gwybod ar y pryd y byddai gwleidyddiaeth yn chwarae rhan mor bwysig yn ei fywyd.

Fel plentyn, aeth i Ysgol Gynradd y Ponciau, cyn symud i fyny'r allt i Ysgol y Grango ac yna i Ysgol Rhiwabon. Llwyddodd i ennill lle ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle'r astudiodd y gyfraith. Fe wnaeth Aled hyfforddi fel twrnai ac yna bu'n gweithio i gwmni Jeffrey Morris and Ashton. Pan oedd yn 28 oed, cafodd Aled ei ethol i Gyngor Wrecsam.

Yn 1993 newidiodd bywyd Aled pan briododd Llinos. Roedd y ddau yn dda i'w gilydd. Yn y blynyddoedd i ddilyn trodd y ddau'n bedwar wrth i Osian ac Ifan gael eu geni. Roedd teulu'n bwysig i Aled. Treuliodd lawer Sadwrn, yn ogystal ag ambell noson, yn y gwynt neu'r glaw, neu'r ddau, ar ochr y cae pêl-droed yn gwylio un o'r bechgyn yn chwarae. Ran amlaf, byddai Llinos mewn pentref gwahanol yn gwylio'r mab arall.

Roedd crefydd yn bwysig ym mywyd Aled. Bu'n aelod ffyddlon o Gapel Annibynnol Ebeneser, y Rhos, ac yn chwarae'r organ yno. Roedd y Sul yn amser arbennig ym Mhenllwyn wrth i'r teulu ddod at ei gilydd am ginio.

Un o'r pethau a ddô i'r llawenydd mwyaf i Aled oedd canu. Roedd ganddo staeon dirrif o'i gyfnod yng Nghôr Orpheus y Rhos, ac fe chwarddodd cymaint wrth ddweud y straeon hynny a dynwared acenion y cymeriadau. Roedd wrth ei fodd yn canu gyda Chôr Ger y Ffin a John's Boys efo'i fab Osian, yn enwedig pan fydden nhw'n ennill cystadleuaeth!

Dangosodd Aled fod gwasanaeth cyhoeddus yn gallu bod yn fonheddig. Credai'n gryf ei bod yn bwysig rhoi yn

ôl i'r gymuned a'r wlad yr oedd rhywun yn byw ynnddi. Roedd yn cydnabod bod gwasanaethu eraill yn cyfoethogi enaid y rhoddwr. Fe wnaeth cynifer o bwyllgorau elwa o gael Aled yn rhan ohonynt.

Yn 2003 cafodd Aled y fraint o fod yn faer, a Llinos yn faeres, ar Wrecsam, ac roedd y ddau yn llwyddiant mawr oherwydd eu natur gyfeillgar a'u hymroddiad.

Aeth Aled ymlaen i fod yn Arweinydd Cyngor Wrecsam, ac roedd yn hynod effeithiol yn ei swydd. Roedd o'n gallu arwain, ond hefyd yn gallu cydweithio. Roedd o'n dda am ddadlau – a ffraeo hyd yn oed. Ond roedd o'n gwneud hynny mewn ffordd addfwyn. Roedd yn angerddol dros y pethau oedd yn bwysig iddo fo. Un o'r pethau pwysicaf i Aled oedd addysg. Bu'n ffrind da i ysgolion Wrecsam ac yn arbennig i ysgolion Cymraeg Wrecsam, ac roedd wrth ei fodd yn gweld y twf mewn addysg Gymraeg yn yr ardal.

Nid oedd bwysicach achos – i Aled
Na'n hawliau yn ddi-os,
Hybai hwn beunydd beunos
Yr iaith a glywsai'n y Rhos.

Er i bwysigrwydd ei rôl gynyddu, wnaeth yr Aled roedden ni'n ei nabod ddim newid. Dwi'n cofio, adeg wythnos democratiaeth, i mi ei wahodd i ddod i Ysgol Bryn Tabor i siarad â'r Cyngor Ysgol. A dyma fo'n nôl ei ddyddiadur ac yn trefnu i ddod i weld y plant. Roedd y plant wrth eu bodd yn holi Aled oherwydd ei fod yn dangos cymaint o ddiddordeb ynndyn nhw. Ond, wrth gwrs, roedd Aled yn dangos brwdfrydedd ymhob dim roedd o'n ei wneud.

Roedd llwyddiant gyrfa Aled yn parhau a chafodd ei ethol yn Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru yn 2011 ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol. Bu'n llefarydd addysg yno ar ran ei blaid. Daeth ei allu



Llun: (CC-BY-2.0)

i gyfathrebu'n effeithiol i'r amlwg a bu Aled yn westai rheolaidd ar y radio ac ar y teledu ar raglenni fel *Pawb a'i Farn*. Roedd hi'n fraint gweld meistr wrth ei grefft.

Pan gollodd Aled ei sedd yn y Cynulliad yn 2016, roeddwn i'n meddwl efallai y byddai Aled yn cymryd y cyfle i arafu ryw ychydig. Dim siawns o hynny! Cafodd y fraint o gael ei benodi'n Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn 2019. Roedd Aled wedi'i gwneud hi, ac roedd pobl ledled Cymru yn adnabod ei angerdd dros yr iaith.

Dyma eiriau Annes Glyn i'n Comisiynydd Iaith,

O'i waith i fyd y Pethe – ein 'Dyn Iaith'
ar dân oedd bob cyfle,
Anwylai hon waeth ymhle
Yn hael, uniawn fel ene.

Rydyn ni wedi colli ffrind i Gymru, ffrind i'r iaith, ffrind i'r fro a ffrind i ni.

Bu Aled yn ffrind mor ffyddlon,
un doeth gyda'i holl gynghorion,
yn driw i'w fro a'i gyfoedion
braint oedd cael bod yn gyfeillion.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Llinos, Osian, Ifan, Gladwyn, Nerys a'r teulu cyfan.

(Rhan o deyrnged a draddodwyd gan Kevin Williams yn angladd Aled)

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 20 Mawrth, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Yr Hen a'r Newydd: Bydd Ryland yn ôl yng nghaffi'r Hedyn Mwstard yn Llanbedr Pont Steffan i ymweld â'u heglwys newydd sbon, a chawn gwrdd ag unigolion sydd wedi bod yn brysur yn rhoi ail fywyd i festri Capel Bryngwenith, Henllan, Ceredigion.

BBG | radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 20 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans sy'n cyflwyno cyfres o emynau ar amrywiol themâu. Ymddiriedaeth sy'n cael ei drafod yn y rhaglen heddiw.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 20 Mawrth, am 12:00yp


Gwasanaeth dan ofal Sharon Rees, Pen-rhys

Myfyrdod y Grawys

Cyfes o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys
Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Grawys 3

Darllen Philipiaid 3:17-4:1



Llun gwreiddiol: Larissa S / flickr

Byddwch yn gyd-efelychwyr ohonof fi, gyfeillion, a daliwch sylw ar y rhai sy'n byw yn ôl yr esiampl sydd gennych ynom ni. Oherwydd y mae llawer, yr wyf yn fynych wedi sôn wrthych amdanynt, ac yr wyf yn sôn eto yn awr gan wlo, sydd o ran eu ffordd o fyw yn elynion croes Crist. Distryw yw eu diwedd, y bol yw eu duw, ac yn eu cywilydd y mae eu gogoniant; pobl â'u bryd ar bethau daearol ydynt. Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ac oddi yno hefyd yr ydym yn disgwyl Gwaredwr, sef yr Arglwydd Iesu Grist. Bydd ef yn gweddnwied ein corff iselwael ni ac yn ei wneud yn unfurf â'i gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sydd yn ei alluogi i ddwyn pob peth dan ei awdurdod. Am hynny, fy nghyfeillion, anwyliaid yr wyf yn hiraethu amdanynt, fy llawenydd a'm coron, safwch yn gadarn fel hyn yn yr Arglwydd, fy nghyfeillion annwyl.

1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

*Wrth i ni deithio trwy'r Grawys, sut gallwn ni ddangos i eraill mai yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, a'n bod yn disgwyl Gwaredwr, yr Arglwydd Iesu Grist? Oes modd i ni ddarganfod ffyrdd o fynegi ein gobaith a'n disgwyliad sydd yn gwneud synnwyr i eraill? Sut gallwn ni ddangos llawenydd gobeithiol i bobl?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, fe welwn fod Caradog yn enghraifft benodol o rywun sy'n cyfateb i'r disgrifiad ysgrythurol o elyn Crist. Gwelwn o'r hanes hefyd iddo gael ei ddinistrio, yn ôl pob tebyg, trwy i'r ddaear ei lyncu. Sut mae modd i ni ddefnyddio'r stori i annog pobl sy'n cael anhawster gyda ffydd ac sy'n teimlo fod barn negyddol pobl eraill yn eu digalonni?

2 Rhywbeth i adfyfrio arno

*Beth ydych chi'n feddwl yw ystyr 'sefyll yn gadarn yn yr Arglwydd' y dyddiau hyn? Sut beth yw cael eich iselhau, eich anwybyddu neu eich gwawdio am fod yn Gristion, neu yn wir am unrhyw beth yn eich bywyd sy'n bwysig i chi?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, safodd yn gadarn yn ei phenderfyniad i ddilyn Iesu Grist ac ymroi yn llwyr i'w wasanaeth, ond tybiodd Caradog ei fod yn ei bychanu'n llwyr trwy ei dal a'i llofruddio. Beth fyddai barn pobl am ffyrdd y byd petai'r hanes wedi dod i ben ar y pwynt hwnnw? Pa enghreifftiau eraill y medwrch chi feddwl amdanynt lle mae Duw wedi achub cam pobl a ddiodeffodd trwy lynu at eu penderfyniad i ddilyn Iesu Grist?

3 Rhywbeth i'w wneud

*Fe all y darlleniad hwn o'r Ysgrythur am erlid Cristnogion yn yr eglwys fore a'r alwad frys i sefyll yn gadarn yn y ffydd ein hatgoffa fod cymaint o Gristnogion ledled y byd yn dal i gael eu herlid heddiw. Ac y mae pobl yn dal i gael eu poenydio a'u bychanu os gwrthodant wadu Iesu Grist. Un peth y gallwn ei wneud yw chwilio am storïau yn y newyddion am frodyr a chwiorydd sy'n cael eu herlid fel hyn a gweddiö drostynt, neu oleuo kannwyll iddynt. Gallem hefyd ddod i wybod mwy am elusennau a chyrrff sy'n gweithio ar ran Cristnogion dan erledigaeth a'u cefnogi gydag amser, arian, gweithredu neu weddiâu.

*Gan ddefnyddio rhai themâu sylfaenol o hanes y Santes Gwenffrewi – trais yn erbyn menywod a dynion, aflonyddu, defnydd erchyll o rym, dwyn gwarth a gorfodaeth – edrychwch o gwmpas eich ardal leol am elusennau, cyrrff a gwasanaethau sy'n ceisio helpu pobl fregus sydd wedi dioddef camdriniaeth neu sydd mewn trafferthion. Dewiswch UN gwasanaeth neu fudiad lleol a dod o hyd i ffordd o roi rhyw fath o gefnogaeth ymarferol iddo, megis rhoi rhoddion o fwyd neu ddillad.


4 Treiddio'n Ddyfnach

*Ar y daith hon yn y Grawys, byddai'n beth da darganfod ffyrdd o ailgysegru ein hunain i'r ffydd Gristnogol. Fe all hynny olygu adfyfrio am ein bedydd ac ailgadarnhau addewidion ein bedydd. Neu fe allwn ystyried gweddiö neu ddarllen y Beibl yn fwy rheolaidd neu trwy ddilyn rheol bywyd syml. Dewch o hyd i rywbeth sy'n gweithio i chi ac ymrwymo iddo trwy weddill y Grawys.

*Mae'r Santes Gwenffrewi yn cael ei gwella gan Sant Beuno yn y stori. Sut gall hyn fod yn ddarlun dynol o'r iachâd a'r trawsnewid y sonnir amdano yn y rhan hon o'r Philipiaid? Petaech yn ceisio esbonio i rywun nad yw'n Gristion ystyr nerth Iesu yn yr Ysgrythur, pa fath o stori allech chi ei dweud i ddarlunio hyn?

5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
Ailgysegrwn ein bywydau i ti,
wrth i ni geisio sefyll yn gadarn yn dy gariad.
Helpa ni i gadw ein golygon ar addewid d'ogoniant,
ac i helpu'r gwan, y trallodus,
pawb sydd heb gyfeillion, heb rym ac sy'n fregus.
Helpa ni i fod yn dystion i'th gariad trawsnewidiol
a fydd yn y diwedd yn sychu ymaith bob deigrny.
Amen.



Llun gwreiddiol: Larissa S / flickr

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

SYLW NEU DDAU

Rhybudd. Nid adolygiad ydi hwn. Does gen i ddim cymhwyster i hynny heb sôn am fod yn ormod o gyfaill i'r diweddar awdur i fod yn wrthrychol. Mae clawr y gyfrol *Gwinllan a Roddwyd* gan Ioan Roberts yn un trawiadol. Mewn lliw llawn ar yr hanner isaf cawn dorth a chwpan

cymun i gynrychioli'r Eglwys Gatholig a'r offeren ac uwchben y teitl mewn sepia mae'r llun eiconig o'r tri a losgodd Benyberth yn Llŷn, gyda Saunders

Lewis yn y canol. A dyna fan cychwyn *Hanes y Cylch Catholig* sef is-deitl y gyfrol sy'n croniclo ymgais, yn wir, brwydr y Cymry Cymraeg a drodd at y ffydd Gatholig i Gymreigio'r sefydliad hwnnw.

Mi wn mai derbyn y comisiwn i lunio'r gyfrol yn anfoddog wnaeth Ioan. Roedd yn newyddiadurwr a golygydd profiadol ond doedd ganddo fawr o wybodaeth am y Cylch na'r ffydd Gatholig y tu hwnt i'w ymweliadau mynych ag Iwerddon a sgysiau gydag ambell gyfaill o Babydd. Ond, ar un ystyr, bu hynny'n fantais gan ei fod yn gallu adrodd y stori yn ddiduedd, heb ragfarn ac mewn ffordd eglur i bobl fel fi sydd yn yr un cwch.

Y Cylch Catholig

Grŵp lled anffurfiol fu'r Cylch ers ei ddechreuadau yn 1941 ac roedd diffyg cofnodion a dogfennau yn dipyn o gur pen i Ioan. Roedd colli Harri Pritchard Jones a oedd i weithredu fel golygydd hefyd yn ergyd. Felly, i ryw raddau, mae'r stori'n cael ei hadrodd o safbwynt cymeriadau fu'n weithgar o fewn y grŵp, rhai'n ffigyrau blaenllaw ac eraill yn aelodau cyffredin ond pob un yn awyddus i weld y Gymraeg yn cael lle mwy teilwng o fewn gweithgaredd yr eglwys. Saunders Lewis oedd y symbylydd fel y gallech ddychmygu ac fe drodd at y Pabyddion am un rheswm yn unig sef 'fy mod yn meddwl mai yn yr offeren yn yr Eglwys Gatholig y mae Duw yn cael ei addoli fel y dylai ef gael ei addoli gan ddynion.' Yn eironig

ddigon, ar ôl deg mlynedd yn golygu cylchgrawn blynyddol *Efrydiau*

Catholig fe giliodd SL o'r Cylch am fod Ail Gyngor y Fatican wedi diddymu'r offeren Ladin i bob pwrpas. Yng Nghymru ystyr hynny oedd y byddai gwasanaethau'r eglwys felly yn uniaith Saesneg ym mhob llan bron iawn. Ar y llaw arall rhoddodd Fatican 2 symbyliad i aelodau'r Cylch fynd ati i ddarparu rhagor o ddefnyddiau Cymraeg ar gyfer y gwasanaethau. Penllanw'r ymdrech honno oedd cyhoeddi *Y Llyfr Offeren Cymraeg* yn 1988, cyfrol 634 o dudalennau, 'tasg enfawr a gyflawnwyd o fewn tair blynedd gan y ddau gyfieithydd, y Tad John Fitzgerald a Patrick Donovan,' fel y dywed yr awdur. Fel y gellid disgwyl mae enwau Gwyddelig yn britho'r hanes; amryw ohonyn nhw yn gefnogwyr allweddol i'r Cylch, fel yr esgobion Mullins a Regan.

Cnewyllyn ymroddedig

Mae Ioan yn crynhoi her y dyddiau cynnar yn effeithiol. Criw bychan bach oedd cnewyllyn gwreiddiol y Cylch. Sgweiar Garthewin, R. O. F. Wynne, prin ei Gymraeg, Cathrin Daniel ac athro ifanc o Faesteg, Victor Hampson Jones. Cenedlaetholwyr bob un a chefnogwyr brwd i Saunders. Wedi troi at yr Eglwys Gatholig am resymau diwinyddol fe'u cawsant eu hunain mewn awyrgylch ddi-Gymraeg os nad anghymreig. Ond wnaeth hynny ddim cyfyngu dim ar uchelgais yr aelodau hyn. Yn ôl y cerdyn aelodaeth o'r cyfnod hwn, y cyntaf o'r pedwar amcan oedd; 'i geisio gan Gatholigion Cymreig roi dychweliad Cymru at y Ffydd yn brif ddymuniad eu bywyd.' Os mynd amdani, mynd amdani, ynte?

Cyfeirir at gyfnodau mwy 'proffesiynol' yn hanes y Cylch o'r wythdegau ymlaen pan benodwyd dwy ferch yn ysgrifenyddion, Anna Uruska i ddechrau ac yna Sue Roberts, y ddwy o Gaerdydd yn wreiddiol a'r ddwy wedi dysgu Cymraeg fel cymaint a fu'n gefn i waith y Cylch.

Troeon yr yrfa

Daw'r gyfrol i ben gydag uchafbwynt y dathliadau niferus, rhyngwladol i gofio Sant John Roberts o Drawsffynydd ar achlysur 400 mlwyddiant ei ddienyddio. Braff oedd darllen bod llawer o'r



dathliadau hynny wedi bod yn achlysuron eciwmenaid gan gynnwys anerchiad gan yr Archesgob Rowan Williams yng nghadeirlan Westminster. Un o ragflaenwyr yr Archesgob wrth gwrs a ddefnyddiodd y Sant i'w ddienyddio yn Tyburn. Rhyfedd o fydd.

Troi oddi wrth y ffydd Gristionogol a wnaeth pobl Cymru yn ystod y cyfnod yma, fel y gwyddom, ond nid diffyg ymroddiad ar ran aelodau'r Cylch sy'n gyfrifol am hynny wrth gwrs. Mae'n hanes sy'n dangos dycnwch ac yn un gwerth ei gofnodi ac er iddo chwysu ac anobeithio wrth geisio cael y maen i'r wal llwyddodd Ioan Roberts i adrodd y cyfan yn ddiddorol a rhywydd.

J. E. Daniel

Un ôl nodyn. Roedd Cathrin Daniel yn aelod cynnar, gweithgar a bu un o'r plant, Sion, yn gadeirydd am gyfnod. Roedd hi, fel y gwŷr llawer, yn wraig i'r ysgolhaig J. E. Daniel a ddarlithiai yng Ngholeg Bala Bangor. Roedd cael gwraig o Babydd yn codi gwrychyn rhai oedd yn ymwneud â'r coleg ar y pryd ac mae'r awdur yn honni, heb ddatgelu tystiolaeth, mai'r drwgdeimlad hwn a yrrodd Daniel i dderbyn swydd fel HMI yn 1946. Tybed beth oedd sail yr honiad hwn?

Alun Ffred

PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gan ein bod ni parhau i fod mewn cyfnod gwahanol i'r arfer, eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.'

Salm 95:1

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Golygyddol

Vladimir Putin: y Meseia Cyfoes a'i ryfel cyfiawn

Dros yr oesoedd hir mae pobl wedi gwneud pethau erchyll gan gredu mai gwneud gwaith eu duw y maent.

Ystyriwch yr hanes am Samuel yn

gorchymyn hil-laddiad yr Amalaciaid, yn ddyinion, menywod a phlant, a'u holl anifeiliaid, am 'fod Duw wedi dweud wrtho i wneud.' Mae'n mynd yn gynddeiriog pan mae'r brenin Saul yn arbed y brenin Agag ac mae'r proffwyd, nid yn unig yn lladd y carcharor diamddiffyn, ond yn ei dorri'n ddarnau yn safle sanctaidd Gilgal (1 Sam. 15:33), sy'n dangos pa mor greulon y gall pobl bwerus sy'n credu eu bod nhw'n clywed llais Duw fod.

Iesu'n wylo

Oherwydd natur ddynol a ffaeledig y proffwydi, fe ddaeth Duw ei hun mewn person byw i siarad â'r Iddewon, i gywiro eu hadnabyddiaeth ohono. 'Dych chi wedi clywed fod hyn yn cael ei ddweud, "Llygad am lygad, a dant am ddant. Ond dw i'n dweud wrthoch chi: Peidiwch ceisio talu'n ôl," (Math. 5:38-



39) meddai Iesu, gan ddiweddarau gorchmynion o ysgrythurau'r Iddewon, sef ein Hen Destament ni. Rydym ninnau'n dal i glywed ei eiriau a theimlo ei bresenoldeb heddiw. Ond rhaid bod Iesu'n wylo o weld pobl sy'n galw eu hunain yn Gristnogion yn dal i arddel meddylfryd a gweithredoedd Samuel yn Gilgal.

KYIV – cawell Cristnogaeth

Yn eu plith mae Vladimir Putin. Mwy am hynny yn y man. Ond yn gyntaf dewch nôl i'r flwyddyn 988OC. Dyna pryd y gwnaeth Vladimir arall, brenin Cristnogol cyntaf cenedl y Rus, fedyddio holl bobl Kyiv yn afon Dnieper. Kyiv oedd man geni'r 'Fam Rwsia Sanctaidd'. Ers diwedd yr Undeb Sofietaidd, mae dylanwad yr Eglwys Uniongred fel rhan o hunaniaeth a gwleidyddiaeth Rwsia wedi tyfu'n aruthrol. Mewn pregeth yn gynharach y mis yma, fe wnaeth pennaeth Eglwys Uniongred Rwsia, y Patriarch Kirill (yn y llun gyda Putin), roi ei gefnogaeth lawn i ymosodiad Rwsia ar Wcráin.



Yn frawychus, mae'r eglwys hyd yn oed wedi plethu ei hun i mewn i drefn arfau niwclear Rwsia. Dywedodd yr Athro Dmitry Adamsky, 'Yn ystod y tair degawd ddiwethaf, mae'r offeiriadaeth wedi cyrraedd pob lefel o reolaeth ac wedi gosod ei hun fel gwarcheidwad potensial niwclear Rwsia. Mae'n amhosib deall y realiti strategol yn Rwsia heddiw yn llawn heb graffu ar y cysylltiad rhyfeddol rhwng y Kremlin, Eglwys Uniongred Rwsia, a'r gymuned arfau niwclear.'

Putin y Meseia

Yn 2019, fe wnaeth yr Eglwys Uniongred yn Wcráin dorri i fwrdd oddi wrth batriarchaeth Moscow, a sefydlu eglwys annibynnol. Fe wnaeth hynny gythruddo Vladimir Putin, sy'n ystyried ei hun yn Gristion o argyhoeddiad. Yn wir, yn fwy na hynny, mae'n ystyried ei hun yn feseia cyfoes sydd am ailuno hil y Rus, yn Belarus, Rwsia ac Wcráin. Mae meddiannu Kyiv fel man geni Cristnogaeth y Rus yn rhan ganolog o'i agenda gwaedlyd. Kyiv yw ei Gilgal ef ac os fydd e'n llwyddo, mae'n bur debyg y bydd yr Arlywydd Zelenskyy yn dioddef yr un ffawd ag Agag. 'Gweledigaeth bŵer yw hon, wedi'i phlethu â diwinyddiaeth Gristnogol genedlaetholgar. Diawlineb yw'r gair cywir pan fydd arweinydd yn defnyddio crefydd i gyfiawnhau goresgyniad, trais a difodi yn enw Duw.' Dyna eiriau'r Parchg Tim Costello, wnaeth gyfarfod â Putin yn 2013.

Dim troi'n ôl

Ni all yr holl sancsiynau yn y byd orfodi Vladimir Putin a'r bobl bwerus sydd o'i gwmpas i droi'n ôl nawr. Byddent yn colli popeth petai nhw'n gwneud hynny. Mae Putin eisoes wedi gwneud cyfeiriad brawychus at arfau niwclear. Y cwestiwn yw, pa mor bell mae e'n barod i fynd i sicrhau buddugoliaeth yn Wcráin? A fydd e'n cynyddu'r bygythiad niwclear i'r fath raddau fel bod NATO a gwledydd y gorllewin yn rhoi'r gorau i arfogi Wcráin, a bod Zelenskyy (os fydd e'n dal i fod yn fyw) yn ildio er mwyn osgoi tynged hyd yn oed yn waeth na'r hyn sy'n digwydd nawr?

Llwybr peryglus

Mae'r byd ar lwybr peryglus. Ar y naill law mae Unol Daleithiau America a gwledydd y gorllewin, ac ar y llaw arall mae Vladimir Putin, dyn sy'n cael ei yrru gan hunandybiaeth feseianaidd, sy'n benderfynol o ymestyn ffiniau Rwsia ar sail hanes a chrefydd y Rus. Gyda'r ddwy ochr yn gwrthod cymodi dim, mae'r tyndra rhyngwladol yn dwysau, tra bod yr ymladd, y lladd a'r dinistr, a nifer y ffoaduriaid o Wcráin yn cynyddu. Erbyn i chi ddarllen hyn, efallai y bydd pethau wedi newid. Ond er gwell neu er gwaeth fydd hynny, ni wn. Duw a'n cadw ni oll.

Alun Lenny

O doed dy deyrnas, nefol Dad,
yw'n gweddi daer ar ran pob gwlad;
dyfodiad hon i galon dyn
a ddwg genhedloedd byd yn un.

O doed dy deyrnas i roi hedd
i fyd a ddarniwyd gan y cledd;
ei gorsedd hi a gwyd y gwan
o ffos anobaith bliŋ i'r lan.

O doed dy deyrnas drwy ein gwaith
a'n gweddi beunydd ar y daith;
a rho in ras i seinio clod
yr hwn a wna i'r deyrnas ddod.

T. ELFYN JONES



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

GWYLNOS HEDDWCH CAERFYRDDIN



Bu tua 200 o bobl yn sefyll mewn tawelwch llwyr am chwarter awr ar Sgwâr Nott, Caerfyrddin mewn gwylnos i fyfrio neu weddio dros heddwch. Profiad rhyfeddol oedd sefyll ynghanol y dre cyhyd, heb neb swnllyd yn mynd heibio. Byddech yn clywed pin yn syrthio! Dywedodd y Parchg Beti-Wyn James, trefnydd yr wynlos: 'Mae'r ffaith bod cymaint o bobl yno, a hynny ar fyr rybudd, yn brawf o'r angen sydd yn y gymuned i ddod ynghyd i gefnogi ein gilydd ar yr amser pryderus yma i bawb, yn ogystal â dangos cefnogaeth i bobl Wcráin ynghanol eu dioddefaint erchyll.' Mae'n fwriad i gynnal nwy o achlysuron o'r fath. Yn y llun gwelir rhan o'r dorf fawr ddaeth ynghyd am 6pm ar nos Sul, 6 Mawrth.

Saron, Creunant



Ar Sul 6 Mawrth, dathlwyd Gŵyl Ddewi yn Saron, Creunant trwy oedfa amrywiol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan nifer o aelodau a ffrindiau'r achos. Hefyd yn ystod yr oedfa dathlwyd penblwydd Mr Peter Heale yn 90 oed a chafwyd lluniaeth yn y festri i ddilyn er mwyn dathlu ymhellach.

Braf oedd dathlu ein Cymreictod ym mhresenoldeb yr Arglwydd a'i bobl.

William Rhys Locke

Cannoedd yn y Bae

Fel miloedd o leoliadau eraill ar hyd a lled y byd cynhaliwyd gwylnos y tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd er mwyn mynegi ein cydymdeimlad

gyda thrigolion Wcráin a'n gwrthwynebiad i ymosodiadau annealladwy a chiaidd Rwsia. Testun braw a thristwch i bawb ohonom yw'r hyn sy'n digwydd yno. Yr oedd naws leddf yn y digwyddiad ar noson oerllyd a thywyll, nid oherwydd diffyg brwdfrydedd, ond oherwydd difrifoldeb y sefyllfa sy'n prysur ddirywio yn Wcráin. Gofidiwn dros y bobl gyffredin sydd bellach o dan ymosodiad milwyr Rwsia ac sy'n debygol o ddiodef ymosodiadau pellach.

Llywyddwyd yr wynlos yn feistrolgar gan y Parchg Aled Edwards, Cytûn. Cafwyd eitemau cerddorol can Gôf CF1 a chyfle i wrando ar nifer o siaradwyr. Yn eu plith yr oedd Mary McNeil, Cymorth Cristnogol, Jane Hutt AS, Siân Lewis, prif weithredwr yr Urdd, Adam Price AS a'r prif weinidog Mark Drakeford. Roedd nifer o'r siaradwyr yn mynegi anniddigrwydd mawr tuag at arafwch Llywodraeth San Steffan i dderbyn ffoaduriaid i'r Deyrnas Gyfunol. Galwyd arnynt i newid eu polisiau ar fyrder er mwyn i ni eu cynorthwyo yn eu hargyfwng.

(Cynhaliwyd yr wynlos ar nos Sul 6 Mawrth.)

